
ADRODDIAD BLYNYDDOL: 2018 - 2019

Gorffennaf 2019

BWRDD TALIADAU
REMUNERATION BOARD

Y BWRDD TALIADAU

Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Sefydlwyd y Bwrdd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, a gafodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 22 Gorffennaf 2010.

AELODAU'R BWRDD

- Y Fonesig Dawn Primarolo DBE PC (Cadeirydd)
- Ronnie Alexander
- Trevor Reaney CBE
- Mike Redhouse
- Y Fonesig Jane Roberts

YSGRIFENYDDIAETH Y BWRDD

- Llew Williams, Clerc
- Sian Giddins, Dirprwy Glerc (hyd at fis Ebrill 2019)
- Ruth Hatton, Dirprwy Glerc (o fis Ebrill 2019)

Gellir gweld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: www.cynulliad.cymru. Gellir cael copïau o'r adroddiad hwn hefyd ar ffurfiau hygyrch yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain neu gopïau caled gan:

Clerc y Bwrdd Taliadau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Taliadau@Cynulliad.Cymru**

ADRODDIAD BLYNYDDOL: 2018 - 2019

Gorffennaf 2019



Cynnwys

Cyflwyniad	7
1. Y Bwrdd Taliadau	8
Sefydlu a phenodi	8
Swyddogaethau ac amcanion.....	8
Egwyddorion.....	9
Y fethodoleg.....	10
Ymgynghori a chasglu tystiolaeth.....	11
2. Gwaith y Bwrdd yn 2018-19	12
Adolygu Penderfyniadau	12
Newidiadau i'r Penderfyniad ar gyfer 2019-20: Buddion a chyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad	12
Newidiadau i'r Penderfyniad ar gyfer 2019-20: Costau swyddfa.....	13
Gwariant ar lety preswyl ar gyfer 2019-20	13
Y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu	14
Ystyried taliadau eithriadol.....	14
Adolygiad o'r cymorth staffio i'r Aelodau	15
Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad.....	17
Adolygiad o swydd yr Uwch-gynghorydd	17
Gwefan newydd	18
Rhaglen waith 2019-20	18
Atodiad A: Aelodau'r Bwrdd	20
Atodiad B: Dadansoddiad o gostau'r Bwrdd - 2019-20	26
Atodiad C: Prosiectau'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu 2019-20	29



Cyflwyniad

Wrth i'r Bwrdd Taliadau ddechrau ar ei flwyddyn olaf yn ei swydd, mae ein hymrwymiad cadarn i sicrhau bod yr Aelodau'n cael digon o gymorth i ymgymryd â'u gwaith tra hefyd yn parchu gwariant y trethdalwr mor absoliwt nawr â phan wnaethom ddechrau ein hamser yn y swydd. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r gwaith a'r penderfyniadau a wnaed gennym dros y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau bod yr ymrwymiad hwn yn cael ei gyflawni.

Mae'r Bwrdd wedi cwrdd chwe gwaith ac wedi gwneud llawer o waith yn y cyfnod hwnnw. Rydw i a'r Bwrdd wedi cael sawl cyfarfod gydag Aelodau unigol a'u staff yn ogystal â Grwpiau Cynrychioliadol yr Aelodau a'r Staff Cymorth. Rwyf hefyd wedi cysylltu'n rheolaidd â Chomisiwn y Cynulliad a'r Llywydd.

Mae'r Bwrdd wedi cwblhau ei adolygiad o gymorth staffio ac wedi cyflwyno rhai newidiadau pellgyrhaeddol.

Mae'r Bwrdd hefyd wedi dechrau ei adolygiad o'r Penderfyniad cyn y Cynulliad nesaf gyda'r bwriad o gyhoeddi ei Benderfyniad newydd un flwyddyn lawn cyn yr etholiad nesaf. Byddwn yn eich annog i gyd i gymryd rhan yn yr adolygiad hwn, gan mai hwn fydd y cyfle olaf i lywio gwaith y Bwrdd presennol hwn cyn cyhoeddi'r Penderfyniad newydd.

Yn ôl yr arfer, byddwn yn cadw golwg ar yr holl benderfyniadau blaenorol er mwyn sicrhau eu bod hwy, a darpariaethau eraill, yn parhau i fod yn addas at y diben ac yn barod i fynd i'r afael â heriau'r Chweched Cynulliad yn 2021.



Y Fonesig Dawn Primarolo

Cadeirydd, Bwrdd Taliadau Annibynnol Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Y Bwrdd Taliadau

Mae'r bennod hon yn disgrifio swyddogaethau'r Bwrdd, ei gylch gwaith a'i ffyrdd o weithio.

Sefydlu a phenodi

1.1. Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu taliadau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Cafodd y Bwrdd ei sefydlu gan **Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010** (y Mesur), a dderbyniodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 22 Gorffennaf 2010.

1.2. Cafodd y Bwrdd hwn ei benodi gan weithdrefn dryloyw o benodiadau cyhoeddus a gynhaliwyd yn ystod haf 2015. Mae bywgraffiadau pob un o aelodau'r Bwrdd ar gael yn Atodiad A. Mae aelodau'r Bwrdd Taliadau wedi'u penodi am gyfnod penodol o bum mlynedd, ac ni chaniateir iddynt gael eu penodi am fwy na dau dymor.

1.3. Cymeradwyodd Comisiwn y Cynulliad y penodiadau ar gyfer aelodau Bwrdd newydd yn ffurfiol ar 21 Medi 2015, a chynhaliodd y Bwrdd ei gyfarfod cyntaf ar 17 ac 18 Medi 2015.

1.4. Ar 12 Mehefin 2017 cymeradwyodd Comisiwn y Cynulliad benodiad Ronnie Alexander yn ffurfiol i'r Bwrdd, yn lle Roger Williams, a ymddiswyddodd ym mis Mai 2016. Cymerodd Ronnie ei le ar y Bwrdd o 10 Gorffennaf 2017 ymlaen.

Swyddogaethau ac amcanion

1.5. Swyddogaethau'r Bwrdd yw penderfynu ar lefel o daliadau a system o gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad (Aelodau) sy'n eu galluogi i gyflawni eu swyddi fel y'u nodir yn adran 3 y Mesur.

1.6. Mae'r Mesur yn nodi tri amcan allweddol y mae'n rhaid i'r Bwrdd eu cyflawni wrth wneud **Penderfyniad**, sef:

- darparu lefel o dâl i'r Aelodau sy'n adlewyrchu cymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y maent yn ymgymryd â hwy, ac nad yw'n rhwystro unigolion, am resymau ariannol, rhag ceisio cael eu hethol i'r Cynulliad;

- darparu adnoddau digonol i'r Aelodau i'w galluogi i arfer eu swyddogaethau;
- sicrhau uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwario arian cyhoeddus.

1.7. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae adran 3 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd adolygu'r ffordd y gweithredir ei benderfyniadau a'u heffeithiolrwydd yn barhaus, gan ystyried yn benodol y profiad y mae'r Bwrdd yn ei feithrin wrth roi ei Benderfyniadau ar waith, unrhyw newidiadau i swyddogaethau Aelodau'r Cynulliad, ac unrhyw amgylchiadau eraill sy'n berthnasol.

1.8. Er ei fod yn annibynnol ar y Cynulliad, ac nad yw'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd na rheolaeth Comisiwn y Cynulliad, mae adran 2 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd, wrth arfer ei swyddogaethau, ymgynghori â'r rhai y mae ei benderfyniadau yn debygol o effeithio arnynt. Mae hyn yn cynnwys Aelodau, staff a gyflogir gan Aelodau neu gan grwpiau o Aelodau, undebau llafur perthnasol ac unrhyw bersonau eraill y mae'r Bwrdd o'r farn eu bod yn briodol.

1.9. Mae adran 2 o'r Mesur yn caniatáu i'r Bwrdd gyfarfod yn breifat os yw o'r farn bod hynny'n briodol, ond mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol iddo weithredu mewn modd agored a thryloyw, a chyhoeddi ar wefan y Cynulliad wybodaeth am ei weithgareddau ar gyfer y cyhoedd. At hynny, mae adran 11 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd osod gerbron y Cynulliad adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau, gan gynnwys yr adnoddau a ddefnyddir ganddo, yn ystod pob blwyddyn ariannol.

1.10. Cyhoeddir costau'r Bwrdd a'r treuliau a gaiff eu hawlio gan yr Aelodau yn Atodiad B. Mae **agenda a chofnodion** pob un o gyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd ar gael ar dudalennau'r Bwrdd ar wefan y Cynulliad.

Egwyddorion

1.11. Mae cyfres o egwyddorion a ddiffiniwyd yn glir wedi bod yn sail i waith y Bwrdd hyd yma:

- dylai'r cymorth ariannol a'r taliadau i'r Aelodau gefnogi diben strategol y Cynulliad a hwyluso gwaith ei Aelodau;
- rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru;

- rhaid i'r system cymorth ariannol i'r Aelodau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw ac yn gynaliadwy, a rhaid iddi gynnig gwerth am arian i'r trethdalwr.

1.12. Yn ystod 2016, datblygodd y Bwrdd set o egwyddorion ac amcanion llywodraethu newydd, ac yna cyhoeddodd **strategaeth** ar gyfer cyflawni ei waith drwy'r Pumed Cynulliad. Adolygodd y Bwrdd y cynnydd a wnaed yn erbyn ei amcanion strategol yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2018. Ceir crynodeb o'r drafodaeth yn adran 1.15.

Y fethodoleg

1.13. Mae'r hyn a nodir yn y Penderfyniad yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd gan yr Aelodau, eu staff, ac unigolion, sefydliadau a ffynonellau perthnasol eraill. Daw'r penderfyniadau o'r adolygiad tryloyw a chyfranogol o'r system cymorth ariannol a thaliadau. Mae'r dystiolaeth a gafodd y Bwrdd wedi ei alluogi i gael syniad clir o ddibenion strategol y Cynulliad a'r ffordd y mae'r Aelodau yn cyflawni'r dibenion hynny. Mae'r Bwrdd wedi rhoi system daliadau ar waith sy'n targedu adnoddau er mwyn cefnogi'r dibenion hyn a phob agwedd ar rôl Aelod. Yn unol â'i gylch gwaith, mae'r Bwrdd yn ymateb i adborth yn ôl yr angen, drwy ystyried gwelliannau i'r Penderfyniad er mwyn sicrhau ei fod yn dal i fod yn addas at y diben.

1.14. Mae'r Bwrdd yn cael cymorth clericio ac ymchwil, cyngor cyfreithiol a chyngor arall, a chymorth gweinyddol gan staff Comisiwn y Cynulliad (yn unol ag adran 9 y Mesur). Darperir y cymorth hwn fel rhan o ddyletswyddau cyffredinol staff y Comisiwn, ac nid yw felly'n arwain at unrhyw gostau ychwanegol i'r Bwrdd Taliadau.

1.15. Rhoddodd rhan gynnar gwaith y Bwrdd gyfle i aelodau'r Bwrdd ddysgu rhagor am swyddogaeth y Bwrdd, sut y mae'r Cynulliad yn gweithio a'r heriau cyfansoddiadol sy'n wynebu'r Bwrdd a'r Cynulliad yn y dyfodol. Defnyddiodd aelodau unigol y Bwrdd y profiad hwn i lywio penderfyniadau'r Bwrdd drwy gydol y flwyddyn gyntaf a phennu **strategaeth** ar gyfer ei waith yn y dyfodol.

1.16. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i sicrhau adnoddau ar gyfer anghenion penodol yr Aelodau ac i ymateb i ofynion y Cynulliad wrth iddo barhau i esblygu. Mae'n bwysig bod y Bwrdd yn targedu adnoddau er mwyn helpu'r Aelodau i gyflawni eu swyddogaethau craidd; craffu ar bolisiau a chyllid; dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif; deddfu; a chynrychioli eu hetholwyr.

1.17. Nid yw hyn yn golygu na fydd y Bwrdd yn dymuno ystyried sut y gall ei swyddogaethau gyfrannu'n ehangach at ddatblygu'r Cynulliad yn strategol wrth i'r sefydliad dyfu a datblygu ac wrth i'w ofynion newid dros amser.

1.18. Lle bydd y Bwrdd yn ei gweld yn briodol inni gyfrannu at faterion sydd â chanlyniadau ehangach, megis ceisio dileu'r rhwystrau i'r rhai sy'n ystyried sefyll fel ymgeiswyr, bydd y Bwrdd yn gwneud hynny, gan gadw mewn cof ei gylch gwaith deddfwriaethol.

Ymgynghori a chasglu tystiolaeth

1.19. Drwy gydol ei waith, mae'r Bwrdd wedi mynd ati i geisio tystiolaeth i lywio ei benderfyniadau drwy ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid gan gynnwys Aelodau a staff cymorth. Bydd y Bwrdd yn parhau gyda'r dull hwn i sicrhau bod ei benderfyniadau yn dal i fod yn addas at y diben.

1.20. Mae'r Bwrdd yn gwerthfawrogi cyfraniad Grwpiau Cynrychioliadol Aelodau'r Cynulliad a staff cymorth Aelodau'r Cynulliad a bydd yn parhau i ymgysylltu â'r grwpiau hyn i hyrwyddo ei benderfyniadau ac i ystyried materion a phryderon sy'n effeithio ar yr Aelodau a'u staff.

2. Gwaith y Bwrdd yn 2018-19

Mae'r bennod hon yn egluro'r newidiadau y mae'r Bwrdd wedi'u gwneud i'r Penderfyniad eleni yn dilyn yr adborth a'r dystiolaeth a gafwyd gan yr Aelodau.

Adolygu Penderfyniadau

2.1. Mae gofyn i'r Bwrdd adolygu'r Penderfyniad yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau i roi i'r Aelodau yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rolau.

2.2. Yn ystod y flwyddyn, adolygodd y Bwrdd benderfyniadau mewn nifer o feysydd, fel yr amlinellir isod. Lle'r oedd angen, gwnaed newidiadau i'r Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad er mwyn creu pecyn o gymorth ariannol i'r Aelodau a fyddai'n addas ar gyfer sefydliad sydd â mwy o bwerau deddfwriaethol a phwerau ym maes trethiant.

Newidiadau i'r Penderfyniad ar gyfer 2019-20: Buddion a chyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad

2.3. Y llynedd, defnyddiodd y Bwrdd y ffigurau diweddaraf a oedd ar gael ar gyfer enillion canolrifol blynyddol staff amser llawn yng Nghymru (fel y'u mesurir gan yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE)) i uwchraddio cyflogau staff cymorth. Cyhoeddwyd ffigurau dros dro yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ar gyfer 2018 ym mis Hydref 2018, sef 1.2 y cant.

2.4. Fodd bynnag, ym mis Ionawr 2019 penderfynodd y Bwrdd addasu cyflogau staff cymorth yn awtomatig drwy'r newid yn yr arolwg ASHE fel yr amlinellwyd. Gan fod y newid hwn yn effeithiol ar unwaith, cynyddodd cyflogau staff cymorth 1.2 y cant yn awtomatig ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20. Bydd y newid hwn yn dod â'r broses ar gyfer newid cyflogau staff cymorth yn unol â'r addasiad awtomatig yng nghyflogau Aelodau'r Cynulliad. Cyhoeddwyd y cyfraddau cyflog newydd yn y Penderfyniad ar gyfer 2019-20.

2.5. O ganlyniad i'r cynnydd yng nghyflogau staff cymorth, cynyddodd y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol o £950,480 gan 1.2 y cant hefyd. Felly, y lwfans newydd yw £961,890.

Newidiadau i'r Penderfyniad ar gyfer 2019-20: Costau swyddfa

2.6. Trafododd y Bwrdd y Lwfans Costau Swyddfa a p'un a yw'n parhau i fod yn briodol ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20. Ystyriodd y Bwrdd nifer o ffactorau, fel chwyddiant a fesurwyd yn ôl mynegai prisiau defnyddwyr (CPI) a gwariant yr Aelodau ar gostau swyddfa. Cytunodd y Bwrdd fod gwariant yr Aelodau ar y lwfans yn dangos bod y lwfans cyfredol yn ddigonol ac o ganlyniad i hyn mae wedi penderfynu cynnal y lwfansau o £18,260 a £4,912 ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20.

Penderfyniad

Cynnal y lwfans ar gyfer costau swyddfa ar gyfer 2019-20.

Gwariant ar lety preswyl ar gyfer 2019-20

2.7. Wrth benderfynu a oedd y Gwariant ar Lety Preswyl yn parhau i fod yn addas at y diben ar gyfer 2019-20, ystyriodd y Bwrdd nifer o ffactorau gan gynnwys gwariant yr Aelodau ar y lwfans a phrisiau rhentu yn ardal Bae Caerdydd.

2.8. Yn seiliedig ar gostau cynyddol rhentu llety, cytunodd y Bwrdd i gynyddu'r lwfans Gwariant Llety Preswyl ar gyfer Aelodau ardal allanol 2.4 y cant yn unol â'r gyfradd CPI ar gyfer mis Medi 2018.

2.9. Penderfynodd y Bwrdd y byddai'r uchafswm ar gyfer gwaith atgyweirio hanfodol, sef £882 y flwyddyn, a'r uchafswm costau rhent ar gyfer Aelodau â dibynyddion, sef £120 y mis, yn cael eu cynnal ar y lefelau cyfredol ar gyfer 2019-20.

2.10. Cytunodd y Bwrdd hefyd i gynyddu'r lwfans Gwariant ar Lety Preswyl ar gyfer Aelodau ardal ganolradd i £6,840 y flwyddyn, ac i ymestyn y defnydd o'r lwfans fel y cynigiwyd yn yr ymgynghoriad. Mae'r Bwrdd hwn o'r farn y bydd y newidiadau hyn yn mynd i'r afael â'r pryderon blaenorol a fynegwyd gan yr Aelodau, nad yw'r lwfans bellach yn cyfateb i'r galwadau cynyddol ar yr Aelodau i aros dros nos ym Mae Caerdydd.

Penderfyniad

Cynyddu'r lwfans gwariant ar lety preswyl ar gyfer Aelodau ardal allanol 2.4 y cant yn 2019-20 yn unol â'r CPI, a chynyddu'r lwfans i Aelodau ardal ganolradd i £6,840 y flwyddyn ar gyfer 2019-20.

Y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu

2.11. Caiff yr Aelodau hawlio hyd at £2,500 y flwyddyn i gomisiynu darnau penodol o waith ymchwil o ffynonellau allanol ac i ganiatáu i'r Aelodau ymgysylltu â'u hetholwyr. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio'r cyllid hwn ar gyfer gwaith sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth y pleidiau.

2.12. Yn ystod 2018-19, defnyddiodd 29 Aelod y Gronfa. Gwariwyd cyfanswm o £47,808.59 ar waith, ac amlinellir y manylion yn Atodiad C.

Ystyried taliadau eithriadol

2.13. Mae'r Bwrdd yn cydnabod y gallai amgylchiadau eithriadol effeithio ar Aelodau unigol, gan effeithio ar eu gallu i gyflawni eu dyletswyddau. Bydd y rhain yn aml yn gyfrinachol eu natur, a gallant godi ar fyr rybudd. Mae dyletswydd ar y Bwrdd i gefnogi'r Aelodau ym mhob agwedd ar eu rôl ac, ym marn y Bwrdd, os caiff wybod am amgylchiadau o'r fath, dylai wneud penderfyniad ynghylch a oes achos o blaid darparu cymorth ariannol eithriadol. Yn amlwg, mae angen ymdrin â cheisiadau o'r fath mewn ffordd sensitif, gan sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith ar gyfer adrodd ar drafodaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd. Lle mae costau'n parhau, bydd y Bwrdd yn adolygu pob achos yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod yr amgylchiadau personol yr un fath ac felly bod y penderfyniad yn parhau'n ddilys ac yn rhoi gwerth am arian i'r trethdalwr.

2.14. Yn ystod 2018-19 cymeradwyodd y Bwrdd dri chais, a'r cyfanswm a dalwyd oedd £3884.

2.15. Mae'r Bwrdd hefyd wedi cytuno i adolygu'r holl daliadau presennol yn flynyddol. Y rheswm am hyn yw sicrhau bod angen y cymorth a ddarperir o hyd, ac a fu unrhyw newid mewn amgylchiadau. Mae'r Bwrdd hefyd wedi cyflwyno ffurflen gais a chanllawiau newydd ar gyfer ceisiadau treuliau eithriadol. Mae'r Bwrdd yn gobeithio y bydd cyflwyno'r rhain yn helpu i egluro pa wybodaeth y dylai'r Aelod ei darparu ac yn ei dro yn sicrhau bod yr holl broses yn fwy effeithlon i bawb dan sylw.

Adolygiad o'r cymorth staffio i'r Aelodau

2.16. Yn ei strategaeth ar gyfer 2016-2021, ymrwymodd y Bwrdd i adolygu strwythur gyrfaoedd a chyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad a'r ffordd orau o roi cymorth priodol i'r Aelodau i wneud eu gwaith yn effeithiol. Lansiodd y Bwrdd yr **adolygiad** ym mis Hydref 2017.

2.17. Cytunodd y Bwrdd i adolygu tystiolaeth bresennol a thystiolaeth newydd sy'n ymwneud â'r lwfansau staffio a ddarperir i'r Aelodau er mwyn sicrhau bod y cymorth ariannol sydd ar gael yn ategu diben strategol y Cynulliad ac yn hwyluso gwaith yr Aelodau. Mae hefyd am sicrhau bod y system cymorth ariannol i'r Aelodau yn gadarn, yn glir, yn dryloyw ac yn gynaliadwy, a rhaid iddi gynnig gwerth i'r trethdalwr. Roedd yr adolygiad yn ystyried y canlynol:

- pa mor ddigonol yw lefel y cymorth a roddir i'r Aelodau;
- pa mor hyblyg a rhagnodol yw'r system cymorth bresennol i'r Aelodau;
- pa mor addas yw telerau ac amodau presennol staff cymorth.

2.18. Cynhaliodd y Bwrdd gyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu gydag Aelodau a staff cymorth, gan gynnwys:

- ymweld â nifer o swyddfeydd etholaethol a rhanbarthol yr Aelodau i gwrdd â'r staff cymorth sydd wedi'u lleoli yn y swyddfeydd hyn;
- cyfweiliadau un-i-un gyda sampl gynrychioliadol o Aelodau a staff cymorth ledled Cymru;
- digwyddiad dros dro i staff cymorth gwrdd â'r Bwrdd;
- arolwg ar-lein a roddwyd i'r Aelodau a'r staff cymorth.

2.19. Trafododd y Bwrdd yr adborth gan yr Aelodau a'r staff cymorth yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu ochr yn ochr â'r cymorth a roddir i'r Aelodau etholedig mewn deddfwrfeydd eraill yn y DU a'r telerau ac amodau ar gyfer staff Comisiwn y Cynulliad a rolau cymaradwy eraill.

2.20. Ar ôl ystyried y dystiolaeth, cytunodd y Bwrdd i lansio nifer o ymgynghoriadau fesul cam. Ym mis Hydref 2018 cyflwynodd y Bwrdd newidiadau i gynyddu hyblygrwydd y lwfansau o fewn y system ac i fynd i'r afael â phroblemau. I ddechrau, penderfynodd y Bwrdd ganiatáu i'r

Lwfans Staffio ar gyfer Aelodau sy'n weddill gael ei gyfrifo yn ôl y gost wirioneddol yn hytrach na'r gost uchaf posibl. Gallai hyn hefyd greu adnodd ychwanegol i'r Aelodau, heb gynyddu'r gost i'r trethdalwr.

2.21. Ochr yn ochr â'r newid hwn, penderfynodd y Bwrdd hefyd gyhoeddi'r gwariant y mae pob Aelod unigol yn ei wneud ar ei Lwfans Staffio. Byddai hyn yn gyhoeddiad blynyddol o gyfanswm gwariant yr Aelod ar staffio yn ystod blwyddyn ariannol. Cytunodd y Bwrdd y byddai'r penderfyniad hwn yn cynyddu tryloywder Aelodau ynghylch gwariant arian cyhoeddus.

2.22. At hynny, er mwyn caniatáu i'r Aelodau gyflogi mwy o staff heb gynyddu'r gost i'r trethdalwr, penderfynodd y Bwrdd dynnu'r cap 111 awr ar staff a gyflogir yn barhaol.

2.23. Penderfynodd y Bwrdd hefyd i ganiatáu i'r Aelodau drosglwyddo hyd at 25 y cant o'u Lwfans Costau Swyddfa i'w Lwfans Staffio. Ynghyd â hyn, penderfynodd y Bwrdd hefyd ganiatáu i'r Aelodau drosglwyddo'r arian sydd ar gael iddynt trwy'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu i'w Lwfans Staffio (hyd at £2,500). Byddai'r newidiadau hyn yn ychwanegol at y darpariaethau trosglwyddo sydd eisoes ar gael i'r Aelodau.

2.24. Yn dilyn y penderfyniadau hyn, penderfynodd y Bwrdd ei bod yn briodol i rai o'r darpariaethau hyn hefyd fod yn berthnasol i Grwpiau Pleidiau Gwleidyddol. Penderfynodd y Bwrdd y byddai'n ymarferol i'r newidiadau ar gyllidebu ar gostau gwirioneddol, a chyhoeddi gwariant staffio, gael eu hailadrodd. Cytunodd y Bwrdd hefyd i atal yr Aelodau rhag gallu trosglwyddo i'w Grwpiau Gwleidyddol.

2.25. Ym mis Ionawr 2019 cytunodd y Bwrdd ar newidiadau pellach i'r darpariaethau cymorth staffio. Yn y Cynulliad, gellir penodi aelodau o'r teulu a phartneriaid drwy'r broses recriwtio. Yn ystod yr adolygiad, ystyriodd y Bwrdd y darpariaethau ynghylch cyflogi aelodau o'r teulu yn ei gyfanrwydd. Yn dilyn yr ystyriaethau hyn, cytunodd i gael gwared ar allu'r Aelodau i ddefnyddio'r lwfansau sydd ar gael iddynt drwy'r Penderfyniad i ariannu cyflogaeth newydd aelodau o'r teulu a phartneriaid o fis Ebrill 2019. Cytunodd hefyd y byddai pob aelod o'r teulu sydd mewn cyflogaeth ar ôl y dyddiad hwn yn cael amddiffyniad trosiannol hyd at ddiddymiad y Chweched Cynulliad (a ddisgwyllir ym mis Ebrill 2026). Yn ogystal â'r newidiadau hyn, penderfynodd y Bwrdd y byddai'n cyhoeddi bandiau cyflog pob aelod o'r teulu a gyflogir yn ogystal ag unrhyw daliadau goramser a wneir iddynt o'r flwyddyn ariannol nesaf ymlaen.

2.26. At hynny, mae'r Bwrdd wedi cytuno i gyflwyno nifer o welliannau i delerau ac amodau staff cymorth. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno diwrnodau braint yn ogystal â hawl gwyliau blynyddol y staff cymorth, yn ogystal â pholisi absenoldeb tosturiol newydd sbon. Ar ôl cyflwyno

polisi Urddas a Pharch y Cynulliad, gweithiodd y Bwrdd gyda'r Aelodau a staff cymorth er mwyn diweddarau Gweithdrefnau Disgyblu a Chwyno staff cymorth.

Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad

2.27. Yn ei strategaeth ar gyfer ei dymor yn y swydd, ymrwymodd y Bwrdd i gyhoeddi ei Benderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad flwyddyn cyn yr etholiad cyffredinol yng Nghymru yn 2021. Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, cytunodd y Bwrdd i lansio adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Cynulliad nesaf ym mis Hydref 2018. Cytunodd y Bwrdd ar y cylch gorchwyl a ganlyn ar gyfer yr adolygiad:

- addasrwydd lefel y gefnogaeth a ddarperir yn y Penderfyniad;
- hyblygrwydd, rhagnodoldeb a hygyrchedd y darpariaethau;
- gonestrwydd, atebolrwydd, rhesymoldeb a thryloywder y gwariant sydd ar gael.

2.28. Penderfynodd y Bwrdd y bydd yr adolygiad yn cael ei rannu'n dair rhan. Ar ôl ystyried pob rhan o'r gwaith, bydd y Bwrdd yn cyhoeddi ymgynghoriad i geisio barn ar ei gynigion i ddiwygio unrhyw ddarpariaethau o fewn y rhan honno. Mae'r tri rhan fel a ganlyn:

- **Rhan un:** Gwariant ar Lety Preswyl (Pennod 4); Teithio Aelodau (Pennod 5); Lwfans Costau Swyddfa (Pennod 6);
- **Rhan dau:** Cymorth i Aelodau Cynulliad (Pennod 7); Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol (Pennod 8);
- **Rhan tri:** Tâl Aelodau (Pennod 3); Aelodau sy'n gadael eu swyddi (Pennod 9).

2.29. Unwaith y bydd y Bwrdd wedi cwblhau ei adolygiad o dair rhan yr adolygiad, cyhoeddir ymgynghoriad terfynol i geisio barn ar y Penderfyniad yn ei gyfanrwydd er mwyn sicrhau bod y pecyn cymorth ariannol i'r Aelodau yn parhau i fod yn addas at y diben.

Adolygiad o swydd yr Uwch-gynghorydd

2.30. Fel rhan o'i adolygiad ehangach o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad, comisiynodd y Bwrdd adolygiad hefyd o swydd yr Uwch-gynghorydd. Gan fod dros ddwy flynedd wedi mynd heibio ers cyflwyno'r swydd, ystyriwyd ei bod yn amser priodol i werthuso sut y mae rôl yr Uwch-gynghorydd wedi gweithredu ers ei chyflwyno. Amcan gwreiddiol y

swydd oedd gwella capasiti strategol swyddfeydd yr Aelodau ar faterion polisi, y cyfryngau a/neu faterion etholaeth lefel uchel.

2.31. Penododd y Bwrdd Capital People Ltd i gynnal yr adolygiad ar ran y Bwrdd. Roedd yr adolygiad yn trafod y materion a ganlyn:

- set sgiliau'r unigolion a gyflogir yn Uwch-gynghorwyr;
- manteision ac anfanteision y rôl i Aelodau'r Cynulliad;
- y problemau a wynebwyd ers i'r rôl gael ei chreu;
- y rhesymau y mae hanner yr holl Aelodau heb gyflogi Uwch-gynghorydd.

Gwefan newydd

2.32. Mae'r Bwrdd hefyd wedi lansio ei wefan newydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Er bod gan y Bwrdd bresenoldeb ar wefan Comisiwn y Cynulliad eisoes, teimlwyd y byddai gwefan allanol ar wahân yn helpu i egluro annibyniaeth y Bwrdd o'r Cynulliad, yn ogystal â darparu llwyfan gwell ar gyfer cyfleu ei waith. Mae'r safle ar gael yn www.bwrddtaliadau.cymru

Rhaglen waith 2019-20

2.33. Bydd y Bwrdd yn parhau i gasglu ac ystyried tystiolaeth wrth iddo geisio llunio Penderfyniad sy'n addas ar gyfer y Cynulliad nesaf. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid i gynhyrchu Penderfyniad, sydd nid yn unig yn rhoi lefel ddigonol o gefnogaeth i'r Aelodau wneud eu swyddi, ond nad yw ychwaith yn atal unrhyw ddarpar ymgeiswyr a allai fod yn dymuno cael eu hethol i'r Cynulliad. Mae'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r adolygiad hwn yn sylweddol a disgwylir iddo fod yn flaenllaw ym mlwyddyn waith lawn olaf y Bwrdd.

2.34. Yn unol â'r adolygiad hwn, bydd y Bwrdd hefyd yn ystyried effaith ehangach penderfyniad y Comisiwn i beidio â deddfu ar gyfer Cynulliad mwy o fewn y tymor hwn. Bydd y Bwrdd yn parhau i sicrhau bod ei Benderfyniad yn rhoi cyfle i'r Aelodau ymgymryd â'u rôl yn effeithiol ar ran pobl Cymru. Mae hyn yn cynnwys sicrhau nad yw unrhyw benderfyniadau a wneir gan y Bwrdd yn cael effaith niweidiol ar unrhyw unigolion sy'n uniaethu ag unrhyw nodweddion gwarchoddedig fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

2.35. Bydd y Bwrdd hefyd yn dechrau nodi'r sefyllfa ar gyfer ei adroddiad etifeddiaeth cyn penodi Bwrdd newydd ym mis Gorffennaf 2020.

Atodiad A: Aelodau'r Bwrdd





Y Fonesig Dawn Primarolo (Cadeirydd)

Mae'r Fonesig Dawn Primarolo, DBE, yn wleidydd Plaid Lafur Prydain a oedd yn Aelod Seneddol dros Dde Bryste rhwng 1987 a 2015, pan roddodd y gorau i'w sedd. Bu'n Weinidog Gwladol dros Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yn yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd rhwng mis Mehefin 2009 a mis Mai 2010, ac yn Ddirprwy Lefarydd Tŷ'r Cyffredin ers 2010. Cafodd ei phenodi'n Fonesig Gadlywydd Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (DBE) am ei gwasanaeth gwleidyddol.

Ganed Dawn yn Llundain a chafodd ei magu yn Crawley, Gorllewin Sussex. Dychwelodd i Lundain ym 1973 i weithio, ac ymunodd â'r Plaid Lafur yn ystod ei chyfnod yn gweithio fel ysgrifennydd cyfreithiol mewn Canolfan Gyfreithiol yn nwyrain Llundain.

Symudodd i Fryste ym 1974 a ganed ei mab, Luke, ym 1978. Astudiodd ar gyfer gradd BA (Anrhydedd) mewn gwyddorau cymdeithasol ym Mholytechnig Bryste fel myfyriwr aeddfed a rhiant sengl, ac yn dilyn hynny cyflawnodd waith ymchwil PhD ym maes menywod a thai.

Cafodd Dawn ei hethol am y tro cyntaf i Senedd y DU yn etholiad cyffredinol 1987 a bu'n gwasanaethu yn y swyddi a ganlyn:

- 1992–1994: Llefarydd yr Wrthblaid dros lechyd
- 1994–1997: Llefarydd yr Wrthblaid dros y Trysorlys
- 1997–1999: Ysgrifennydd Ariannol i'r Trysorlys
- 1999–2007: Tâl-feistr Cyffredinol
- 2007–2009: Gweinidog Gwladol dros lechyd Cyhoeddus
- 2009–2010: Gweinidog Gwladol dros Blant a Phobl Ifanc

Urddwyd Dawn yn Arglwyddes am Oes yn y Deyrnas Unedig ym mis Awst 2015.



Trevor Reaney

Penodwyd Trevor Reaney yn Glerc a Phrif Weithredwr Cynulliad Gogledd Iwerddon ym mis Awst 2008 tan iddo ymddeol ym mis Mehefin 2016. Dechreuodd Trevor ei yrfa yn y diwydiant lletygarwch, ac mae wedi dal nifer o swyddi rheoli yn y sector preifat a chyhoeddus. Cyn ymuno â'r Cynulliad, bu Trevor yn gweithio fel Prif Weithredwr Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon o fis Ionawr 2004. Cyn hynny, roedd yn Brif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Craigavon, rhwng 1996 a 2003.

Mae Trevor bellach yn ymgymryd â gwaith ymgynghorol llawrydd ac mae'n ymwneud â nifer o sefydliadau:

- Aelod Bwrdd Awdurdod y Diwydiant Diogelwch
- Aelod o Gorff Adolygu Tâl yr Heddlu a'r Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol
- oCymrawd yn y Sefydliad Rheoli
- Ymddiriedolwr Tree Aid (elusen ddatblygu ryngwladol). Board Member of the Security Industry Authority



Michael Redhouse

Ar hyn o bryd, Michael Redhouse yw Pennaeth EMES Consulting, sef cwmni a sefydlodd yn 2002 sy'n helpu llawer o sefydliadau mawr gyda materion taliadau a buddion. Graddiodd Michael mewn mathemateg o'r Brifysgol Agored, ac mae ei yrfa wedi cynnwys cyfnodau fel Partner yn Ernst and Young a Chyfarwyddwr Polisi Cyflogaeth yn Diageo. Gwasanaethodd Michael fel Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth APEX, sy'n cefnogi troseddwyr sy'n dychwelyd i'r gwaith, ac mae'n Gadeirydd Ymddiriedolwyr Hosbis St Luke yn Harrow.

Mae Michael yn Aelod o'r Corff Adolygu Athrawon Ysgol (STRB), sy'n edrych ar gyflogau, dyletswyddau proffesiynol ac amser gweithio athrawon ysgol yng Nghymru a Lloegr, ac sy'n atebol i'r Ysgrifennydd Gwladol..



Dame Jane Roberts

Mae Jane yn Gymrawd Ymchwil mewn Arweinyddiaeth Gyhoeddus yn Ysgol Fusnes y Brifysgol Agored.

Roedd Jane yn Arweinydd Cyngor Camden ym Mwrdeistref Llundain o 2000 i 2005 ac wedi hynny bu'n gwasanaethu mewn amrywiaeth o rolau anweithredol, gan gynnwys Cadeirydd Comisiwn Cyngorwyr yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, Cadeirydd Parenting UK, aelod o fwrdd Ofsted, Cadeirydd y Rhwydwaith Llywodraeth Leol Newydd ac ar hyn o bryd mae'n Gadeirydd yr elusen, Living Streets. Mae hefyd yn aelod o Grŵp Cyngori Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Penodwyd Jane yn DBE yn 2004. Yn broffesiynol, mae'n feddyg meddygol ac yn Seiciatrydd Ymgynghorol Plant a Phobl Ifanc Anrhydeddus gyda phrofiad o reoli gofal iechyd uwch yn y GIG.

Mae Jane wedi cyhoeddi nifer o erthyglau academiaidd mewn pediatreg, seiciatreg a gwleidyddiaeth. Cyd-olygodd 'The Politics of Attachment' (1996) gyda Sebastian Kraemer ac mae'n awdur 'Losing Political Office' (2017).



Ronnie Alexander (Gorffennaf 2017 ymlaen)

Arferai Ronnie fod yn Brif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae'n Eiriolwr Defnyddwyr dros y Cyngor Defnyddwyr Dŵr ac mae'n aelod o Bwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru. At hynny, mae'n Gyfarwyddwr Anweithredol i Estyn, Cadeirydd Annibynnol y Pwyllgor Safonau yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac mae'n aelod o Bwyllgorau Safonau Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Chyngor Bro Morgannwg.

Roedd gyrfa Ronnie yn y gwasanaeth sifil yn rychwantu dros 20 mlynedd, ac roedd newid hinsawdd a chynaliadwyedd yn ddiddordebau penodol ganddo. Cyn hynny, bu'n gweithio i nifer o awdurdodau lleol yng Ngogledd Iwerddon a Lloegr mewn meysydd fel gwasanaethau cymorth strategol a gorfodaeth. Mae ganddo hanes sylweddol o ymgysylltu â'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a gwleidyddion ar bob lefel i ddylanwadu ar bolisi.

Cadarnhaodd Comisiwn y Cynulliad benodiad Ronnie i'r Bwrdd ym mis Mehefin 2017. Cymerodd ei le ar y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2017.

Atodiad B:

Dadansoddiad o gostau'r Bwrdd - 2019-20

Mae'r tabl isod yn dangos y costau uniongyrchol yr aeth y Bwrdd Taliadau iddynt ym mlwyddyn ariannol 2018-19. Yn ystod y cyfnod hwn, cynhaliwyd pum cyfarfod ffurfiol o'r Bwrdd yn ogystal â nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu ag Aelodau a staff cymorth. Hefyd, cynhaliodd aelodau'r Bwrdd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu gydag Aelodau a staff cymorth i lywio ei adolygiad o'r cymorth staffio i

Tabl 1: Ffioedd Aelodau'r Bwrdd (cyn treth)

	Y Fonesig Dawn Primarolo	Y Fonesig Jane Roberts	Trevor Reaney	Michael Redhouse	Ronnie Alexander	Cyfanswm
Cyfradd ddyddiol	£333.00	£267.00	£267.00	£267.00	£267.00	
Cyfradd hanner diwrnod	£166.50	£133.50	£133.50	£133.50	£133.50	
Cyfradd awr	£44.40	£35.60	£35.60	£35.60	£35.60	
Ffioedd	£6,676.48	£3,029.64	£2,634.40	£3,525.28	£4,739.11	£20,604.91

Tabl 2: Treuliau Aelodau'r Bwrdd

	Dame Dawn Primarolo	Dame Jane Roberts	Trevor Reaney	Michael Redhouse	Ronnie Alexander	Total
Car mileage	£0.00	£137.70	£26.10	£0.00	£135.00	£298.80
Taxi/Car Hire	£175.48	£44.08	£341.86	£9.73	£0.00	£571.15
Air Travel	£0.00	£0.00	£528.90	£0.00	£0.00	£528.90
Train & Tube	£155.20	£371.65	£0.00	£529.50	£0.00	£1,056.35
Tolls	£0.00	£0.00	£0.00	£0.00	£0.00	£0.00
Other Expenses	£0.00	£0.00	£93.85	£0.00	£0.00	£93.85
Accommodation	£482.00	£472.00	£470.00	£472.00	£0.00	£1,896.00
Subsistence (catering)	£99.00	£116.80	£75.95	£120.00	£119.45	£531.20
Total	£911.68	£1,142.23	£1,536.66	£1,131.23	£254.45	£4,976.25

Tabl 3: Costau ychwanegol

	Y Fonesig Dawn Primarolo	Y Fonesig Jane Roberts	Trevor Reaney	Michael Redhouse	Ronnie Alexander	Cyfanswm
Milltiroedd car	£0.00	£137.70	£26.10	£0.00	£135.00	£298.80
*Tacsi / llogi car	£175.48	*44.08	£341.86	£9.73	£0.00	£571.15
Teithiau awyr	£0.00	£0.00	£528.90	£0.00	£0.00	£528.90
Trên a thiwb	£155.20	£371.65	£0.00	£529.50	£0.00	£1,056.35
Tollau	£0.00	£0.00	£0.00	£0.00	£0.00	£0.00
Treuliau eraill	£0.00	£0.00	£93.85	£0.00	£0.00	£93.85

	Y Fonesig Dawn Primarolo	Y Fonesig Jane Roberts	Trevor Reaney	Michael Redhouse	Ronnie Alexander	Cyfanswm
Llety	£482.00	£472.00	£470.00	£472.00	£0.00	£1,896.00
Cynhaliaeth (arlwyo)	£99.00	£116.80	£75.95	£120.00	£119.45	£531.20
Cyfanswm	£911.68	£1,142.23	£1,536.66	£1,131.23	£254.45	£4,976.25

* Noder: mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys rhai teithiau tacsï a rannwyd rhwng aelodau'r Bwrdd ac ni ellir priodoli'r cyfanswm i gyd o reidwydd i unigolion y Bwrdd.

Atodiad C: Prosiectau'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu 2019-20

Aelod Cynulliad	Teitl
Andrew RT Davies	Hysbysebu Cyfryngau Cymdeithasol
Ann Jones	Cylchlythyr 20 Mlynedd o Ddatganoli
Bethan Sayed	Hysbysebu Media Wales
Bethan Sayed	Clwb Rygbi Porthcawl - Hysbyseb yn y rhaglen
Bethan Sayed	Prynu nwyddau â brand
Bethan Sayed	Clwb Rygbi Bryncoch - Hysbyseb yn y rhaglen
Bethan Sayed	Hysbyseb mewn Papur Newydd Chwaraeon 7 diwrnod
Caroline Jones	Cylchlythyr
Dai Lloyd	Bwrdd hysbysebu
Dai Lloyd	Datblygu polisi - Trafnidiaeth yn Rhanbarth De Cymru
Dai Lloyd	Hysbysebu ar ochr cae chwaraeon
Dai Lloyd	Dosbarthu llythyr Gorllewin Abertawe
Dai Lloyd	Llythyrau dilynol
Dai Lloyd	Poster rhanbarthol
Darren Millar	Cylchlythyr i ymgysylltu a chyfathrebu ag etholwyr ar faterion yn cynnwys carcharorion yn pleidleisio, cyllid ysgolion a chynnydd yn y dreth gyngor.
David Rees	Clwb Rygbi Aberafan - Bwrdd hysbysebu ar y cae
David Rowlands	Cymunedau Ffermio Dibynnol
Dawn Bowden	Clwb Rygbi Merthyr - Hysbyseb ar ochr cae chwaraeon
Dawn Bowden	Cymdeithas Pêl-droed Merthyr Tudful Cyf - Hysbyseb ar ochr cae chwaraeon
Dawn Bowden	Arolwg Iechyd a Gofal
Dawn Bowden	Arolwg Iechyd a Gofal
Dawn Bowden	Clwb Pêl-droed Athletau Gorllewin Treharris - Hysbyseb ar ochr cae chwaraeon ac yn y rhaglenni
Dawn Bowden	Dawn Bowden AC - Papur newydd
Elin Jones	Cyflawni Adroddiad Blynyddol 2019

Aelod Cynulliad	Teitl
Eluned Morgan	Ffilmio ar gyfer gwobrau Jo Cox
Eluned Morgan	Cyfleu'r wybodaeth a gasglwyd o ganlyniad i ddiwrnodau cyngor ariannol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru
Hefin David	Aelod Cynulliad - ariannu cymhorthfa
Hefin David	Byrddau hysbysebu ar gaeau chwaraeon
Hefin David	Argraffu cylchlythyr i etholwyr
Helen Mary Jones	Ymgynghoriad cydnabod rhywedd
Helen Mary Jones	Iechyd meddwl
Jane Hutt	Ymchwilio i effaith hysbysebion gamblo mewn clybiau pêl-droed a rygbi ar blant yn ne Cymru
Janet Finch-Saunders	Ymgysylltu â'r etholaeth
Jenny Rathbone	Adroddiad Blynyddol 2018
Jenny Rathbone	Ymchwilio i effaith hysbysebion gamblo mewn clybiau pêl-droed a rygbi ar blant yn ne Cymru
Jeremy Miles	Allgymorth ar-lein
John Griffiths	Lleoli hysbyseb ar gyfer y tymor rygbi
John Griffiths	Lleoli hysbyseb ar gyfer y tymor pêl-droed
John Griffiths	Lleoli hysbyseb ar gyfer y tymor rygbi
Leanne Wood	Cyflenwad tai yn y dyfodol
Mark Drakeford	Mark Drakeford AC - Adroddiad Blynyddol 2019
Mark Isherwood	Hysbysebu mewn papurau newydd yng ngogledd Cymru
Mick Antoniw	Adroddiad blynyddol i etholwyr
Mohammad Asghar	Diwrnod ymwybyddiaeth strôc
Mohammad Asghar	Cerdyn galw allgymorth
Mohammad Asghar	Taflen 'Report Back' Gwanwyn 2019
Neil McEvoy	Hysbysebu ar Facebook - tai gwag
Neil McEvoy	Hysbysebu ar Facebook - Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd
Neil McEvoy	Hysbysebu ar Facebook - Diwrnod ym Mywyd Aelod Cynulliad
Neil McEvoy	Tai gwag
Neil McEvoy	Tipio anghyfreithlon
Neil McEvoy	Adroddiad Blynyddol Aelod Cynulliad

Aelod Cynulliad	Teitl
Neil McEvoy	Ymgysylltiad Twitter ag etholwyr
Neil McEvoy	Dadl Fer ar wasanaethau plant
Paul Davies	Cylchlythyr InTouch
Rhiannon Passmore	Dylunio a rheoli gwefan Aelod Cynulliad
Rhun ap Iorwerth	Rhun ap Iorwerth - Adroddiad Blynyddol 2018
Russell George	Arolwg Iechyd
Sian Gwenllian	Cynllun Addysg Iaith Gymraeg
Suzy Davies	Cylchlythyr Suzy Davies AC